

Tabl o Dermau, Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Ionawr 2020).

–

Table of Terms, Agricultural Land Classification (January 2020).

Cymraeg	Disgrifiad	Description	English
Cyfartaledd Glaw Blynyddol	Y Cyfartaledd Glaw Blynyddol yw cyfanswm y glaw sy'n disgyn mewn blwyddyn galendr. Mae hyn yn wahanol i barhad y gwlybanaeth gydol y flwyddyn galendar – gweler Dyddiau Capasiti Cae,	AAR is a measure of the total amount of rainfall, falling in a calendar year. This is different to the duration of wetness throughout a calendar year – see FCD.	Average Annual Rainfall (AAR)
Dosbarthiad Tir Amaethyddol	Dyma'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae'r system hon yn un gadarn a gwyddonol, ac mae'n asesu ansawdd tir amaethyddol ar sawl graddfa fapio. Y system hon yw'r unig system gymeradwy ar gyfer graddio ansawdd tir yng Nghymru a Lloegr. (Gweler hefyd y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas)	ALC is the Agricultural Land Classification system. This is a robust, scientific system to assess agricultural land quality at a range of mapping scales. The ALC is the only approved system for grading land quality in England and Wales. (See also BMV)	Agricultural Land Classification (ALC)
Cynhwysedd Dŵr Pridd (AP)	Mae'r Cynhwysedd Dŵr (y dŵr sydd ar gael y mae pridd yn gallu ei ddal) yn cael ei gymharu â Diffyg Lleithder (diffyg lleithder hinsawdd mewn milimedrau) i asesu graddfa sychder y Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Dylid nodi fod gwerthoedd gwahanol yn cael eu cyfrifo ar gyfer cnydau gyda gwreiddiau dwfn (gwenith) a chnydau gyda gwreiddiau bas (tatws). Gweler hefyd Diffyg Lleithder Tatws Prif Gnwd a Diffyg Lleithder Gwenith Gaeaf.	AP (available water a soil can hold) is compared to MD (climatic moisture deficit in millimetres) to assess ALC drought grade. Note that separate values are calculated for deep rooting crops (wheat) and shallow rooting crops (potatoes). See also MDPOT and MDWHT.	Crop adjusted available water capacity (AP)
Cyfartaledd Glaw yr Haf (Ebrill i Medi, wedi ei fesur mewn milimedrau)	Mae Cyfartaledd Glaw yr Haf yn mesur faint o law sy'n disgyn ar adeg dyngedfennol ar gyfer tyfiant cnwd. Nid yw hyn yn cael ei ddefnyddio fel maen prawf ar ei ben ei hun ond mae'n ymhlyg mewn rhai cyfrifiadau cefndir.	ASR measures rainfall at the critical time of year for crop growth. This is not used as a criterion in its own right but is implicit in some background calculations.	(ASR) Average Summer Rainfall (April to September, measured in millimetres).

Tymheredd Cronedig (uwch na 0°C – Ionawr i Fehefin)	<p>Mae Tymheredd Cronedig yn mesur cynhesrwydd ardal ar adeg dyngedfennol pan mae planhigion yn eginu ac yn tyfu. Y Tymheredd Cronedig, yw, yn syml, swm yr holl dymheredd uwch na 0°C, yn cael ei gyfri'n ddyddiol o fis Ionawr i fis Mehefin.</p>	<p>This measures the warmth of an area during a period critical for germination and plant growth. ATO is simply a sum of all temperatures above 0°C, summed on a daily basis from January to June.</p>	(ATO) Accumulated Temperature (above 0°C - January to June).
Cynhwysedd Dŵr ar Gael	<p>Cynhwysedd Dŵr ar Gael yw faint o ddŵr sy'n cael ei ddal yn y pridd sydd ar gael i blanhigion, yn cael ei fesur yn y milimedrau sydd ar gael. Efallai y bydd mwy o ddŵr yno ond yn cael ei ddal mewn mandyllau bychan iawn gyda sugnad rhy gryf i blanhigion allu ei godi.</p>	<p>The amount of water held in the soil that plants can access, measured in millimetres available. More water may be present but held in very small pores under suction too strong for plants to extract.</p>	(AWC) Available Water Capacity
Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas	<p>Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yw tir Gradd 1, Gradd 2, ac Isradd 3a o'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae tir hwn yn cael ei amddiffyn drwy'r polisi Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, polisi sy'n wahanol yn Lloegr i'r hyn sydd yng Nghymru.</p>	<p>BMV land is ALC Grades 1, Grade 2 and Sub-grade 3a of the ALC system. BMV land is afforded protection through BMV policy. This policy is different in England and Wales.</p>	(BMV) Best and Most Versatile agricultural land
Dyddiau Capasiti Cae	<p>Dyddiau Capasiti Cae yw hyd cyfnodau o leithder yr hinsawdd gydol y flwyddyn yn hytrach na chyfanswm y glaw. Cynhwysedd Cae yw pan fydd cymaint o ddŵr mewn pridd ag y gall ei ddal o dan ddisgyrchiant. Ar Gapasiti Cae, ystyrir fod pridd yn rhy wlyb i'w drin. Dyma, fel arfer, pan fydd draeniau'r cae yn rhedeg. Nifer y Dyddiau Capasiti Cae yw nifer y dyddiau'r flwyddyn pan fydd y pridd ar Gapasiti Cae. Mae Dyddiau Capasiti Cae yn faen prawf allweddol i asesu lleithder a pha mor hawdd yw pridd i'w drin wrth bennu graddfa Dosbarthiad Tir Amaethyddol.</p>	<p>FCD is a measure of the duration of climatic wetness through the year, rather than total rainfall. Field Capacity (FC) is when the soil holds the maximum water it can hold under gravity. At Field Capacity, soils are considered too wet for cultivation. It is normally the period when field drains flow. The number of FCD is the number of days per year a soil is at Field Capacity. FCD is a key criterion in ALC assessment of soil wetness and workability.</p>	(FCD) Field Capacity Days

<p>Haenen Gleï (Gleï)</p>	<p>Haen gleï yw haenen o bridd yn dangos tystiolaeth o leithder yn y pridd drwy gyfuniad o liwiau penodol, matrices o liwiau gyda brychni lliw rhwd, er enghraifft. Gall faint o gleï sydd mewn pridd, a'i amlygrwydd, amrywio cryn dipyn. Mae gleï yn cael ei achosi gan occsideiddiad cemegol a lleihad mewn haearn, sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn lleithder pridd. Mae hyn yn faen prawf allweddol wrth asesu lleithder ar gyfer y Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Gall haenau o gleï ymddangos ar eu pen eu hunain. Ond hefyd, gallai gleï fod yn rhan o'r Haenau Athraidd Araf. Pan geir haenau gleï ar eu pen eu hunain, mae'n nhw, fel arfer, yn fwy athraidd na gleï sy'n gysylltiedig â Haenau Athraidd Araf. Mae'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ystyried hyn wrth asesu lleithder pridd a pha mor hawdd yw ei drin. Ceir diffiniad llawn yn Atodiad 3 o ganllawiau MWWF 1988 (gweler Haen Athraidd Araf)</p>	<p>A gleyed horizon is a soil layer showing evidence of soil wetness, through specific soil colour combinations. A grey matrix colour with rusty mottles is an example. The amount of gleying and its distinctiveness can vary significantly. Gleying is caused by chemical oxidation and reduction of soil iron, linked to changes in soil wetness. This is a key criterion in ALC soil wetness assessment. Gleyed horizons can occur in isolation. However, gleying can also be a component of Slowly Permeable Layers (SPLs). Where gleyed horizons occur on their own, they are typically more permeable than when gleying is associated with SPLs. The ALC system accounts for this in the soil wetness and workability assessment. A full definition is provided in Appendix 3 of the MAFF 1988 guidelines (See SPL: Slowly Permeable Layer)</p>	<p>Gleyed horizon (gleying)</p>
<p>Parhad Arwynebedd Dail Gwyrdd.</p>	<p>Parhad Arwynebedd Dail Gwyrdd yw mesur (mynegai) o faint a pharhad gweithgaredd ffotosynthetaidd dail gwyrdd mewn cnydau.</p>	<p>Measure (index) of size and duration of photosynthetically active green leaves of crops.</p>	<p>Green Leaf Area Duration (GLAD)</p>
<p>Haen neu Derfynlin</p>	<p>Haen, neu derfynlin, mewn pridd yw haenen benodol, lorweddol, fel arfer. Mae gan haen, fel arfer, nodweddion sy'n ei gwahaniaethu rhwng yr haenau uwchben ac islaw. Gallai fod oherwydd y cynnwys organig, lliw, strwythur, gwead, cynnwys cerrig ayb.</p>	<p>A horizon is a distinct, normally horizontal, layer in the soil. The layer is normally characterised by a property / properties separating it from the layer above and below. This could be due to organic matter content, colour, structure, texture, stone content etc.</p>	<p>Horizon</p>
<p>Cyfyngiadau Rhyngweithiol</p>	<p>Yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y rhain yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar raddfa'r Dosbarthiad yn seiliedig ar ryngweithrediadau'r hinsawdd a'r pridd. Mae hyn yn bwysig wrth asesu</p>	<p>In ALC, these are limitations directly affecting grade based on climate / soil interactions. This is important for assessment of soil droughtiness and soil wetness / workability. Interactive limitations allow for similar</p>	<p>Interactive limitations</p>

	sychder a lleithder pridd a pha mor hawdd yw ei drin. Drwy'r cyfyngiadau'r rhyngweithredol, gellir asesu priddoedd tebyg yn wahanol mewn rhannau gwlypach neu sychach o Gymru a Lloegr. Gweler hefyd Cyfyngiadau Unigol.	soils to be assessed differently, in wetter or drier parts of England and Wales. See also Standalone limitations.	
Rheol Liebig o'r isafswm	Os ceir cyfuniad o ffactorau cyfyngu, <i>dim ond</i> yr un sy'n cyfyngu fwyaf sy'n penderfynu pa mor ddifrifol, yn gyffredinol, yw'r cyfyngiad hwnnw. Defnyddir y term hwn yn nogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd ac mae'n gyfystyr a'r 'ffactor sy'n cyfyngu fwyaf' yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol. (Gweler y ffactor sy'n cyfyngu fwyaf)	If a combination of limiting factors exists, <i>only</i> the one most limiting determines the overall severity of limitation. This term is used in EC documents and is synonymous with 'most limiting factor' in ALC. (See most limiting factor)	Liebig's law of the minimum
MAFF	MAFF oedd y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (DEFRA erbyn hyn).	MAFF was the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (now DEFRA).	MAFF
'Y Llyfr Glas'	<i>The Revised guidelines and criteria for grading the quality of agricultural land (MAFF 1988)</i> . Dyma'r system bresennol a'r unig system gymeradwy ar gyfer graddio ansawdd tir yng Nghymru a Lloegr. Daeth y canllawiau i rym ar 1 Ionawr 1989 gan ddisodli pob arolwg neu ganllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol blaenorol.	<i>The Revised guidelines and criteria for grading the quality of agricultural land (MAFF 1988)</i> . This is the extant and only approved system for grading land quality in England and Wales. The guidelines came into force on 1 January 1989 superseding any previous ALC surveys or guidelines.	MAFF 1988 Guidelines / the 'Blue Book'
Y Ffactor sy'n Cyfyngu Fwyaf	Os ceir cyfuniad o ffactorau cyfyngu, dim ond yr un sy'n cyfyngu fwyaf sy'n penderfynu pa mor ddifrifol, yn gyffredinol, yw'r cyfyngiad hwnnw ac felly raddfa'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Gweler rheol Liebig o'r isafswm.	If a combination of limiting factors exists, the most limiting one only is used to determine severity of limitation and hence ALC Grade. See Liebig's law of the minimum.	Most limiting factor (ALC)

Diffyg Lleithder	<p>Diffyg Lleithder yw'r mesur o sychder hinsawdd neu'r duedd i ddiodef oherwydd sychder. Dyma'r cyfeiriad hinsawdd allweddol yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol i fesur sychder pridd.</p> <p>Gwerth y Diffyg Lleithder yw'r cydbwysedd rhwng y dŵr sy'n treiddio i'r pridd o'r glaw a'r dŵr sy'n cael ei golli drwy drydarthiad planhigion. Mae hyn yn cael ei fesur fel milimedrau o ddiffyg, mewn perthynas â chyfnod tyfu'r cnwd allweddol.</p> <p>Mae Argaeledd Dŵr (y dŵr sydd ar gael y mae pridd yn gallu ei ddal) yn cael ei gymharu gyda Diffyg Lleithder (diffyg lleithder hinsawdd mewn milimedrau) i asesu graddfa sychder y Dosbarthiad Tir Amaethyddol.</p> <p>Dylid nodi fod gwerthoedd gwahanol yn cael eu cyfrifo ar gyfer cynydau gyda gwreiddiau dwfn (gwenith) a chnydau gyda gwreiddiau bas (tatws). Mae rhagor o fanylion yn Diffyg Lleithder Tatws Prif Gnwd a Diffyg Lleithder Gwenith Gaeaf.</p>	<p>MD is a measure of climatic dryness or susceptibility to drought. This is the key ALC climatic reference to assess soil droughtiness.</p> <p>The MD value is the balance between water coming into the soil through rainfall and water being lost through plant transpiration. This is measured in millimetres deficit, related to the key crop growing period.</p> <p>AP (available water a soil can hold) is compared to MD (climatic moisture deficit in millimetres) to assess ALC drought grade.</p> <p>Note that separate values are provided for deep rooting crops (wheat) and shallow rooting crops (potatoes). See MDPOT and MDWHT for more detail.</p>	MD (Moisture deficit)
Diffyg Lleithder Tatws Prif Gnwd	Diffyg Lleithder Tatws Prif Gnwd (gweler Diffyg Lleithder)	Moisture Deficit for main crop potatoes (see MD)	MDPOT
Diffyg Lleithder Ŷd Gaeaf	Diffyg Lleithder Ŷd Gaeaf (gweler Diffyg Lleithder)	Moisture Deficit for Winter Wheat (see MD)	MDWHT
Priddoedd mwynol	Priddoedd mwynol yw priddoedd nad ydyn nhw'n organig-fwynol nag yn fawnog.	Mineral soils are soils which are not organic-mineral soil or peaty.	Mineral soils
Priddoedd organig-fwynaid neu fawnog	Priddoedd gydag un ai â llawer o gynnwys organig neu sy'n fawnoglyd. Mae'r diffiniadau yn Atodiad 2 o Ganllawiau MAFF 1988.	Soils with either a high organic matter content or which are peaty. See Appendix 2 of the MAFF 1988 Guidelines for definitions.	Organic-mineral or peaty soils

<p>Deunydd Organig</p>	<p>Yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, deunydd organig yw cyfanswm unrhyw ddeunydd organig mewn haen o bridd sy'n cael ei fynegi fel canran o gyfanswm pwysau'r pridd. Ar gyfer y Dosbarthiad Tir Amaethyddol, mae hyn yn cael ei fesur fel arfer gyda'r dechneg 'colli wrth losgi' lle mae'r deunydd organig yn llythrennol yn cael ei losgi o'r sampl. Mae deunydd organig yn cynnwys gweddillion planhigion ac anifeiliaid yn ogystal â'r carbon hynod sefydlog sy'n bresennol. Dyma'r mesur safonol yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer asesu deunydd organig. Dylid cofio fod hyn yn wahanol i'r term carbon organig sy'n mesur carbon sefydlog yn unig. O ganlyniad, bydd gwerthoedd deunydd organig yn uwch na rhai carbon organig. Mae'r prawf am garbon organig yn un cymhleth ac eithaf drud ac nid yw'n cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer y Dosbarthiad Tir Amaethyddol.</p>	<p>In ALC, the total amount of any organic matter in a soil horizon, expressed as percentage of the total soil weight. For ALC, this is usually measured by the 'loss on ignition' technique. Organic material is literally burnt off the sample. Organic matter includes plant residues, fauna and as well as the highly stable carbon present. This is the standard measure, for assessment of organic matter in ALC.</p> <p>Please note this is different to the term organic carbon which measures stable carbon only. Consequently, organic matter values will be higher than organic carbon. Organic carbon is a complex and relatively expensive test, not routinely used in ALC.</p>	<p>Organic matter</p>
<p>Map Dosbarthaid Tir Amaethyddol Rhagweledol</p>	<p>Cyflwynwyd y Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol yng Nghymru yn 2017. Mae'n fodel ar y we sy'n mireinio graddau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar lefel Cymru gyfan. Mae'n defnyddio modelau cefndir hinsawdd a thiroedd sydd wedi'u cysylltu â data nodweddion pridd NATMAP. Yna mae'n graddnodi'r data yn ôl y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Gellir gweld Graddau Rhagfynegol y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (gan gynnwys Is-raddau 3a a 3b) a hefyd yr holl arolygon maes Ôl Adolygu. Cafodd y Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol ei ddisodli gan y mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol Dros Dro yng Nghymru. Hyn yw prif ffynhonnell yr wybodaeth strategol ynghylch</p>	<p>The Predictive ALC was introduced in Wales in 2017. It is a web based model refining ALC grading at an all Wales level. It uses background climate and terrain models, linked to NATMAP soil property data. It then calibrates the data to the ALC system. Predictive ALC Grades (Including Subgrade 3a and 3b) can be viewed, along with all Post Revision field surveys. The Predictive ALC has superseded the Provisional ALC maps in Wales. It is the primary source of strategic ALC information in Wales. (See Provisional ALC). http://lle.gov.wales/map/alc</p>	<p>Predictive ALC</p>

	Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru. (Gweler y Dosbarthiad Tir Amaethyddol Dros Dro). http://lle.gov.wales/map/alc		
Mandyllledd	Mandyllledd yw mesur sy'n dangos faint o sianelau sy'n cario aer / dŵr sydd yn y pridd. Mae'r rhain, fel arfer, yn cael eu creu gan bryfed genwair neu wreiddiau planhigion. Mae lled a nifer y sianelau'n amrywio cryn dipyn mewn priddoedd. Mae mandylledd yn faen prawf pwysig wrth asesu gwlypter pridd. Mae rhagor o wybodaeth yng Atodiad 3 o ganllawiau MAFF 1988.	Porosity is a measure of the amount of air / water carrying channels in the soil. These are normally created by worms or plant roots. The diameter and amount of channels varies significantly between soils. Porosity is an important criterion in soil wetness assessment. See Appendix 3 of the MAFF 1988 guidelines for further information.	Porosity
Mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol Dros Dro.	Mapiau yw'r rhain oedd wedi'u paratoi rhwng 1968 a 1974 yn dosbarthu'r cyfan o Gymru a Lloegr i 5 Gradd. Y bwriad oedd y byddai'r mapiau yn cael eu hystyried fel yr arweiniad strategol i ansawdd tir amaethyddol. Yn wreiddiol, y raddfa oedd un fodfedd i'r filltir (1:63 360) ond, yn ddiweddarach, fe'u cyffredinolwyd i raddfa o 1:250 000. Dim ond fel canllawiau strategol i ansawdd tir y dylid defnyddio'r gyfres o fapiau ac nid i asesu safleoedd penodol. I gael graddfa ddiffiniol, mae angen arolwg yn unol â chanllawiau MAFF 1988. Cafodd y mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol Dros Dro eu disodli gan y Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol yn 2017 (Gweler Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol).	Maps prepared between 1968 and 1974, classifying all of England and Wales into 5 Grades. The maps were intended as a strategic guide to agricultural land quality. Originally produced at a scale of one inch to the mile (1:63 360) but subsequently generalised to a scale of 1:250 000. The maps series should only be used for a strategic guide to land quality and not relied on for site specific assessments. For a definitive grading, a survey according to the MAFF 1988 guidelines is needed. The Provisional ALC maps were replaced in Wales by the Predictive ALC in 2017. (See Predictive ALC).	Provisional maps ALC
Haenen Athraidd Dŵr Araf	Haen Athraidd Dŵr Araf yw haen mewn pridd sydd ond yn gadael dŵr i dreiddio drwyddi'n araf iawn. Mae hyn yn faen prawf allweddol wrth asesu lleithder ar gyfer y Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae Haenau Athriadd Dŵr Araf yn codi oherwydd cyfuniad o ddyfnder, gwead, strwythur a mandylledd yr haenau. Mae'n rhaid cael tystiolaeth o leithder (e.e. glei,	An SPL is a soil layer, which only allows very slow movement of water through it. This is a key criterion in ALC soil wetness assessment. SPL's occur due to a combination of the layers depth, texture, structure, porosity. It must have evidence of wetness (e.g. gleying, ochreous mottles or ferri-manganiferous concretions) within or above it. See Appendix 3 of the	Slowly Permeable Layer (SPL)

	brychni ocraidd neu galediad haearn-fanganesaidd) yn yr haenau neu uwch eu pennau. Mae'r diffiniadau llawn yn Atodiad 3 o Ganllawiau MAFF 1988. Gweler calediad haearn-fanganesaidd, <i>haen glei / glei</i> .	MAFF 1988 guidelines for a full definition. See ferri-manganiferous concretions, gleyed horizons / gleying.	
Swmp Ddwysedd Pridd	Swmp Ddwysedd Pridd yw'r dwysedd ymddangosiadol o bridd cae ac mae'n cael ei gyfrifo o'r mas sychder popty fesul uned o bridd cae. Mae'n nodwedd bwysig mewn pridd sy'n crynhoi nodweddion strwythurol cyffredinol pridd.	The apparent density of field soil and calculated from the oven-dry mass per unit volume of field soil. It is an important soil property that summarises general soil structural characteristics.	Soil Bulk Density (BD)
Dosbarthiad Gwlybanaeth Pridd	Mae Dosbarth Gwlybanaeth Pridd yn ddisgrifiad allweddol sy'n mesur pa mor wlyb yw pridd. Mae'n mesur am faint o'r flwyddyn y mae pridd yn wlyb uwch rhai dyfnderau penodol ar raddfa o I – VI. Gradd I yw'r sychaf, Gradd VI yw'r gwlypaf. Gradd I i VI sydd i'w gweld amlaf yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae'r Dosbarth Gwlybanaeth Pridd yn cael ei fesur ar gyfer y Dosbarthiad Tir Amaethyddol drwy ddefnyddio a) dyfnder at haen glei a'r dyfnder at Haen Athraidd Dŵr Araf – sy'n mesur pa mor gyflym y mae dŵr yn treiddio trwy bridd penodol - a b) nifer y Dyddiau Capsiti Cae – sy'n mesur y cyfnod o hinsawdd gwlyb. Mae'r diffiniadau llawn yn Atodiad 3 o Ganllawiau MAFF 1988. (Gweler hefyd Gwlyb)	SWC is the key descriptor for the severity of soil wetness. SWC measures the amount of the year a soil is wet above certain depths on a scale of I – VI. SWC I is driest, SWC VI is wettest. SWC I to IV are most commonly encountered in ALC. For ALC, SWC is assessed using (a) depth to gleyed horizon & depth to SPL – measuring how quickly water can move through a specific soil – and (b) the number of Field Capacity Days (FCD) – measuring the duration of climatic wetness. See Appendix 3 of the MAFF 1988 guidelines for a full definition. (See also Wet).	Soil Wetness Class (SWC)
Cyfyngiadau Unigol	Cyfyngiadau Unigol yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol yw'r rhain sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y raddfa yn annibynnol ar ryngweithrediad pridd / hinsawdd e.e. llifogydd, graddiant, cynnwys cerrig yn y pridd wyneb a'r hinsawdd yn gyffredinol.	In ALC, these are limitations directly affecting grade independent of soil / climate interactions – e.g. flooding, gradient, topsoil stone content & overall climate.	Standalone limitations

Soilscales	Mae Soilscales yn rhoi crynodeb syml o'r gwahaniaethau rhanbarthol bras sydd yn nhirweddau pridd Cymru a Lloegr ar raddfa o 1:250,000. Mae wedi'i greu o Fap Pridd Cenedlaethol manylach gyda'r bwriad o gyfleu'n effeithiol ddealltwriaeth gyffredinol o'r amrywiadau sydd mewn gwahanol fathau o briddoedd a sut y mae priddoedd yn effeithio ar yr amgylchedd. Datblygwyd Soilscales gan Brifysgol Cranfield gyda nawdd DEFRA. http://www.landis.org.uk/soilscales/	Soilscales conveys a simplified summary of the broad regional differences in the soil landscapes of England and Wales on a 1:250,000 scale. It was created from the more detailed National Soil Map with the purpose of effectively communicating a general understanding of the variations which occur between soil types, and how soils affect the environment. Soilscales was developed by Cranfield University and sponsored by DEFRA. http://www.landis.org.uk/soilscales/	Soilscales
Strwythur Pridd	Strwythur Pridd yw'r cyfuniad o ronynnau pridd unigol i greu unedau mwy ac ar wahân, a elwir yn 'pediau' neu'n unedau strwythurol. Gellir dosbarthu'r rhain i wahanol siapiau, meintiau ayb. Gall gwahaniaethau rhwng mathau a chyflyrau strwythurol pridd gael effaith fawr ar symudiad dŵr drwy bridd. Mae strwythur pridd yn bwysig ar gyfer asesu gwlypter / pa mor hawdd yw i'w drin a'i sychder.	Soil structure is the aggregation of individual soil particles into discrete larger units, called peds or structural units. These can be classified into different shapes, sizes etc. Differences between soil structural type and condition can have a large effect on soil water movement. Soil structure is important for soil wetness / workability and droughtiness assessment	Soil structure
Gwlypter / Gwlyb	Wrth asesu dosbarth gwlybanaeth pridd, ystyr 'gwlyb' yw'r haenau o ddŵr sydd i'w gweld ar wynebau graeanau neu bediau. Bydd cloddio o dan haen wlyb yn achosi dŵr i lifo i lawr yr wyneb sydd wedi'i ddadorchuddio, er y gall y llif fod yn araf iawn ac wedi'i gyfyngu i'r mandyllau a'r holltau mwyaf. Mae diffiniad llawn yn Soil Survey Field Handbook (Hodgson J.M. 1997 – a elwir yn Hodgson J.M. 1976).	In soil wetness class assessment, 'wet' means water films are visible on the surfaces of grains or peds. Excavation below a wet horizon will cause water to flow down the exposed face, though flow may be very slow and confined to major pores and fissures. For a full definition see Soil Survey Field Handbook (Hodgson J.M. 1997 – definition as Hodgson J.M. 1976).	Wet